

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

# Yr hyn a ganiateir i ymgyrchwyr refferendwm yr UE

---

Mae'r ddogfen hon ar gyfer  
ymgyrchwyr cofrestredig sydd am  
wybod sut i gadarnhau bod rhoddion a  
benthyciadau yn rhai a ganiateir yn y  
refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE.

Cynnwys:

Pwy a ganiateir

Sut i wneud gwiriadau

Beth sydd angen i chi ei gofnodi



## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

## Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio arian a gwariant gwleidyddol. Rydym yn ymrwymedig i roi dealltwriaeth glir i'r rheini a reoleiddiwn o'u rhwymedigaethau rheoliadol drwy ein dogfennau canllaw a'n gwasanaeth cyngori. Os nad ydych yn siŵr sut mae unrhyw rai o'r rheolau hyn yn gymwys i chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Ac rydym yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn deg.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Mae mwy o wybodaeth am ddull gorfodi'r Comisiwn yn

[www.electoralcommission.org.uk/cymru/party-finance/enforcement](http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/party-finance/enforcement)

---

# 2

## Yr hyn a ganiateir i ymgyrchwyr refferendwm yr UE

### Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen hon:

Ymgyrchwyr sydd am wybod mwy am sut i gadarnhau bod rhoddwr neu fenthyciwr yn un a ganiateir yn y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

### Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- Pwy sy'n rhoddwr neu'n fenthyciwr a ganiateir
- Sut i gynnal gwiriadau i gadarnhau a yw rhoddwyr neu fenthycwyr yn rhai a ganiateir
- Beth sydd angen i chi ei gofnodi

### Dogfennau cysylltiedig:

- [Caniatâd ar gyfer Pleidiau Gwleidyddol Gogledd Iwerddon yn y Refferendwm](#)
- [Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)

### Papurau arbenigol

- [Rhannu gwariant](#)

# Crynodeb

Caiff rhoddion a benthyciadau i ymgyrchwyr cofrestredig yn y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE eu rheoleiddio dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015.

Ni ellir derbyn rhoddion na threfnu benthyciadau oni bai eu bod yn dod o ffynonellau penodol, yn bennaf yn y DU a Gibraltar.

Mae'r canllawiau hyn yn egluro sut i gadarnhau p'un a allwch dderbyn rhodd neu drefnu benthyciad gan ffynhonnell benodol, ac yn dweud wrthyich pa wybodaeth y mae angen i chi ei chofnodi ac adrodd arni.

Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei chofnodi yn eich helpu i lenwi'r ffurflen a ddychwelir atom ar ôl y refferendwm.

---

# 4

## Cyflwyniad

O dan PPERA, mae gennym gyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE.

Ein hamcanion ar gyfer y refferendwm yw:

- y dylai gael ei chynnal yn dda ac arwain at ganlyniadau a dderbynnir
- y dylai fod uniondeb a thryloywder o ran arian a gwariant ar ymgyrchu

Mae'r canllawiau'n adlewyrchu'r rheolau yn PPERA fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015. Mae'r Ddeddf wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn. Mae'r Ddeddf yn darparu y gall y llywodraeth wneud newidiadau i'r rheolau o fewn rheoliadau. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn diweddarau ein canllawiau a'n tudalennau gwe i ddangos y newidiadau hynny.

Nid yw'r Ddeddf yn pennu hyd y cyfnod dynodi, hyd cyfnod y refferendwm na dyddiadau dechrau'r cyfnodau hynny. Rhaid i'r llywodraeth lunio rheoliadau sy'n amlinellu hyd a dyddiad dechrau cyfnod y refferendwm. Byddwn yn diweddarau ein [gwefan](#) pan gaiff y rheoliadau hyn eu llunio.

Mae'r rheolau yn wahanol i bleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn ein canllawiau [Caniatâd ar gyfer Pleidiau Gwleidyddol Gogledd Iwerddon yn y Refferendwm](#)



I gael rhagor o wybodaeth am gyfnod y refferendwm a'r cyfnod dynodi, gweler y dogfennau hyn:

- [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE.](#)
- [Proses ddynodi ar gyfer Refferendwm yr UE](#)

# Cynnal gwiriadau i gadarnhau a yw rhoddwyr neu fenthycwyr yn rhai a ganiateir

Cyn i ymgyrchydd refferendwm cofrestredig, neu sefydliad neu unigolyn sy'n bwriadu cofrestru'n ymgyrchydd, dderbyn unrhyw rodd gwerth mwy na £500 neu drefnu unrhyw fenthyciad gwerth mwy na £500, rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol i:

- sicrhau eu bod yn gwybod pwy yw'r gwir ffynhonnell
- cadarnhau bod y ffynhonnell yn un a ganiateir

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'rhoddwr' i gyfeirio at roddwyr a benthycwyr.

## Beth yw rhodd?

Rhodd yw arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau a roddir:

- tuag at eich gwariant ar ymgyrchu
- heb godi tâl neu ar delerau anfasnachol, ac
- sydd â gwerth o fwy na £500

Mae rhai enghreifftiau o roddion yn cynnwys:

- rhodd arian neu fath arall o eiddo
- noddi digwyddiad neu gyhoeddiad

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y dogfennau hyn:

- [Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm](#)
- [Trosolwg o fenthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm](#)

I gael rhagor o wybodaeth am wariant ar ymgyrchu a chyfnodau'r refferendwm, gweler y ddogfen hon:

- [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE.](#)

# 6

- taliadau tanysgrifio neu daliadau ymlyniad
- defnydd am ddim, neu am bris gostyngol arbennig, o eiddo neu gyfleusterau, er enghraifft defnydd am ddim o swyddfa

**O dan PPERA, nid yw unrhyw beth sydd â gwerth o £500 neu lai yn rhodd.**

## Beth yw benthyciad?

O dan PPERA, mae rheolau ynglŷn â phwy all roi benthyc arian neu roi credyd neu warant i chi mewn perthynas â'ch gwariant ar ymgyrch y refferendwm.

Yn ein canllawiau, rydym yn cyfeirio at bob trafodyn o'r math hwn fel 'benthyciadau'. Mae'r rheolau yn cwmpasu'r trafodion canlynol:

- benthyciadau ariannol
- cyfleusterau credyd, megis cardiau credyd a gorddrafftiau
- gwarannau neu warantau ar gyfer rhwymedigaethau ymgyrchydd i rywun arall

**O dan PPERA, nid yw unrhyw beth sydd â gwerth o £500 neu lai yn fenthyciad.**

## Pwy sy'n gyfrifol am gadarnhau a yw rhoddwr neu fenthyciwr yn un a ganiateir?

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig benodi a chofrestru 'unigolyn cyfrifol' â ni. Os ydych yn blaid wleidyddol wedi'i chofrestru yn y DU, eich trysorydd cofrestredig fydd eich 'unigolyn cyfrifol' yn awtomatig. Os ydych yn ymgyrchydd unigol, chi fydd yr 'unigolyn cyfrifol'.

Ni allwch weithredu fel unigolyn cyfrifol ar gyfer mwy nag un ymgyrchydd.

I gael gwybodaeth am ddychwelyd benthyciadau, gweler:

- [Trosolwg o fenthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm](#)



Yr unigolyn cyfrifol sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am sicrhau bod yr ymgyrchydd yn cydymffurfio â'r rheolau. Mae hyn yn cynnwys cynnal systemau addas i sicrhau yr ymdrinnir â rhoddion a benthyciadau'n gywir.

Dylai swyddogion eraill yn y sefydliad roi gwybodaeth berthnasol i'r unigolyn cyfrifol os yw'n rhesymol ofynnol iddynt wneud hynny.

## Faint o amser sydd gennych i gadarnhau a yw rhoddwr neu fenthyciwr yn un a ganiateir?

Cyn gynted ag y cewch rodd, rhaid i chi sicrhau eich bod yn gwybod pwy yw'r rhoddwr, a dechrau cadarnhau a yw'n rhoddwr a ganiateir. Bydd gennych 30 diwrnod i benderfynu p'un a ddylech dderbyn neu wrthod y rhodd a dychwelyd y rhodd os nad yw'r ffynhonnell yn un a ganiateir.

Mae'n rhaid i chi gadarnhau a yw benthycwyr yn rhai a ganiateir **cyn** i chi gael benthyciad.

Hyd yn oed os ydych wedi cynnal gwiriad i gadarnhau bod rhodd neu fenthyciad cynharach gan yr un ffynhonnell yn un a ganiateir, rhaid i chi gynnal gwiriad newydd ar gyfer pob rhodd ddilynol.

Os nad yw benthyciwr i ymgyrchydd cofrestredig yn un a ganiateir neu os bydd yn newid i fod yn fenthyciwr nas caniateir ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y benthyciad, mae'r trafodyn yn annilys.

Dylech gadw cofnod o'ch holl wiriadau i gadarnhau a yw rhoddwyr neu fenthycwyr yn rhai a ganiateir er mwyn dangos eich bod wedi dilyn y rheolau.

---

# 8

## Beth yw ffynhonnell a ganiateir?

Ffynhonnell a ganiateir yw:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholwyr y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rhai sy'n gadael cymynroddion
- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholwyr Gibraltar gan gynnwys y rhai sy'n gadael cymynroddion
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn Gibraltar ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU neu Gibraltar
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU neu Gibraltar
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn Gibraltar ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- cymdeithas lesiant, diwydiannol, darbodus neu adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn Gibraltar ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn Gibraltar
- corff sydd wedi ei gorffori gan Siarter Frenhinol
- sefydliad corfforedig elusennol yn y DU
- partneriaeth Albanaidd sy'n cynnal busnes yn y DU

I gael gwybodaeth am yr hyn a ganiateir ar gyfer pleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon, gweler:

- [Caniatâd ar gyfer Pleidiau Gwleidyddol Gogledd Iwerddon yn y Refferendwm](#)

Gallwch hefyd dderbyn rhoddion, ond nid benthyciadau, gan fathau penodol o ymddiriedolaethau. Os cewch rodd gan ymddiriedolaeth, cysylltwch â ni i gael rhagor o gyngor.

Dim ond ymgyrchwyr arweiniol dynodedig a all dderbyn rhoddion gan bleidiau gwleidyddol sydd wedi'u cofrestru yn y DU neu Gibraltar.

Er ei bod yn gyfreithlon i chi dderbyn rhoddion gan elusennau cyn belled â'u bod yn rhoddwyr a ganiateir hefyd, ni chaniateir i elusennau roi rhoddion gwleidyddol fel arfer o dan gyfraith elusennau.

Os ydych yn gwybod bod rhoddwr yn elusen, dylech sicrhau eu bod yn cael cyngor gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban neu Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon cyn rhoi'r rhodd.

## Sut rydych yn dychwelyd rhodd?

Os ydych yn gwybod pwy yw'r rhoddwr, rhaid i chi ei dychwelyd iddo o fewn 30 diwrnod i gael y rhodd.

Os daw'r rhodd o ffynhonnell anhysbys (er enghraifft, rhodd arian o £600 yn ddiennw), rhaid i chi ei dychwelyd o fewn 30 diwrnod i gael y rhodd i'r canlynol:

- y sawl a drosglwyddodd y rhodd i chi; neu
- y sefydliad ariannol a ddefnyddiwyd i drosglwyddo'r rhodd

Os nad ydych yn gwybod pwy yw'r naill na'r llall, rhaid i chi anfon y rhodd at y Comisiwn Etholiadol. Byddwn yn ei thalu i mewn i Gronfa Gyfunol y Llywodraeth.

Os byddwch wedi ennill llog ar y rhodd cyn i chi ei dychwelyd, gall eich sefydliad ei gadw. Ni chaiff y llog hwn ei drin fel rhodd ac nid oes angen adrodd arno.

---

# 10

## Sut i gadarnhau a yw unigolyn yn rhoddwr a ganiateir



### Beth sy'n gwneud unigolyn yn rhoddwr a ganiateir?

Rhaid i unigolion fod ar un o gofrestrau etholwyr y DU neu ar gofrestr etholwyr Gibraltar ar adeg rhoi'r rhodd neu'r benthyciad. Mae hyn yn cynnwys etholwyr tramor.

### Sut rydych yn cadarnhau bod unigolyn yn rhoddwr a ganiateir?

Gallwch ddefnyddio'r gofrestr etholwyr i gadarnhau a yw unigolyn yn rhoddwr a ganiateir. Mae hawl gan ymgyrchwyr cofrestredig i gael copi am ddim o'r gofrestr etholwyr lawn.

Dylech ysgrifennu at Swyddog Cofrestru Etholiadol y cyngor lleol perthnasol yn gofyn am eich copi, gan egluro eich bod yn gofyn amdano fel ymgyrchydd refferendwm cofrestredig.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gadarnhau a yw unigolion yn Gibraltar yn rhoddwyr a ganiateir yn ein canllawiau [Gibraltar a refferendwm yr UE](#).

Rhaid i chi edrych ar y gofrestr a'r diweddariadau'n ofalus, er mwyn sicrhau bod y person ar y gofrestr ar y dyddiad y trefnwyd y benthyciad, neu'r dyddiad y cawsoch y rhodd.

O dan amgylchiadau arbennig, mae gan bobl gofrestriad dienw. Os oes gan roddwr gofrestriad dienw, rhaid i chi ddarparu datganiad i gadarnhau eich bod wedi gweld tystiolaeth bod gan yr unigolyn gofnod dienw yn y gofrestr.

Os nad ydych yn ymgyrchydd cofrestredig, gallwch gadarnhau a yw unigolyn yn rhoddwr a ganiateir drwy gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol a phrynu copi o'r gofrestr.

Dim ond er mwyn cadarnhau a yw rhoddwr yn rhoddwr a ganiateir, neu at ddibenion y refferendwm h.y. ymgyrchu, y dylech ddefnyddio'r gofrestr. Rhaid i chi beidio â'i rhoi i unrhyw un arall.

## Beth sydd angen i chi ei gofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- enw llawn y rhoddwr
- y cyfeiriad fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr, neu os mai etholwr tramor yw'r person, ei gyfeiriad cartref

Efallai y bydd yn ddefnyddiol nodi rhif etholiadol y rhoddwr fel cofnod o'ch gwiriad.

---

# 12

## Sut i gadarnhau a yw cwmni yn rhoddwr a ganiateir

### Beth sy'n gwneud cwmni yn rhoddwr a ganiateir?

Mae cwmni yn rhoddwr a ganiateir os yw:

- wedi'i gofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau
- wedi'i gorffori yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE, ac
- yn cynnal busnes yn y DU a/neu Gibraltar

Rhaid i chi fod yn siŵr bod y cwmni yn bodloni pob un o'r tri maen prawf.

### Sut y gallaf gadarnhau cofrestrriad cwmni a chorfforiad yn yr UE?

Dylech edrych ar y gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau, gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein yn [www.gov.uk/companies-house](http://www.gov.uk/companies-house) yn y DU neu cysylltwch â Thŷ'r Cwmnïau Gibraltar.

Dylech edrych ar gofnod cofrestru llawn y cwmni.

Er mwyn cadarnhau bod y cwmni yn rhoddwr a ganiateir, bydd angen i chi edrych ar ei rif cofrestru. Dim ond rhif fydd gan rai cwmnïau. Mae gan gwmnïau eraill lythyren fel rhagddodiad i'r rhif.

Mae'r tabl isod yn dangos i chi a yw cwmni â rhagddodiad penodol yn rhoddwr a ganiateir, cyhyd â'i fod hefyd yn cynnal busnes yn y DU a/neu Gibraltar.

Er mwyn cadarnhau a yw cwmni wedi'i gorffori yn un o Aelod-

Llythyren rhagddodiad	A yw'n rhoddwr a ganiateir?
Dim	Ydy
NI, SC	Ydy
FC, NF, SF	Ydy, os yw 'gwlad tarddiad' ar y cofnod ar y gofrestr yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE
OC, SO, NC	Ydy, fel partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig – gweler yr adran ar wahân isod
IP, SP, NP, NO	Efallai – gweler cymdeithasau diwydiannol a darbodus yn yr adran 'Mathau eraill o roddwyr' ar dudalen 19
RC	Efallai – dylech gadarnhau gyda Thŷ'r Cwmnïau
Unrhyw ragddodiad arall	Nac ydy

wladwriaethau'r UE, dylech edrych ar y Gofrestr Ewropeaidd o Fusnesau gan ddefnyddio'r adnodd chwilio am gwmnïau am ddim yn [www.gbrdirect.eu](http://www.gbrdirect.eu).

# 14

## Sut rydych yn cadarnhau a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y DU a/neu Gibraltar?

Rhaid i chi fodloni'ch hun bod y cwmni yn cynnal busnes yn y DU a/neu Gibraltar. Gall y busnes fod yn un nid er elw.

Hyd yn oed os ydych yn gyfarwydd â'r cwmni eich hun, dylech edrych ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau yn y DU neu Dŷ'r Cwmnïau Gibraltar er mwyn gweld:

- a yw'r cwmni yn cael ei ddiddymu, yn segur, neu ar fin cael ei ddileu o'r gofrestr
- a yw cyfrifon a ffurflen flynyddol y cwmni yn hwyr

Mae'n bosibl bod cwmni yn dal i gynnal busnes os yw'n cael ei ddiddymu, yn segur neu'n hwyr yn cyflwyno dogfennau, ond dylech wneud gwiriadau ychwanegol er mwyn bodloni'ch hun mai felly y mae.

O ran unrhyw gwmni, dylech ystyried edrych ar y canlynol:

- gwefan y cwmni
- cyfeirlyfrau ffôn neu wefannau dibynadwy masnachau perthnasol
- y cyfrifon diweddaraf a gyflwynwyd i Dŷ'r Cwmnïau

Os nad ydych yn siŵr o hyd p'un a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y DU a/neu Gibraltar, dylech ofyn am gadarnhad ysgrifenedig gan gyfarwyddwyr y cwmni ynglŷn â'i weithgareddau busnes.

## Beth sydd angen i chi ei gofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- yr enw fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr
- cyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni
- rhif cofrestru'r cwmni



# Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig

## Beth sy'n gwneud partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn rhoddwr a ganiateir?

Mae partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (LLP) yn rhoddwr a ganiateir:

- os yw wedi'i chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau
- yn cynnal busnes yn y DU a/neu Gibraltar

## Sut rydych yn cadarnhau bod partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn rhoddwr a ganiateir?

Dylech edrych ar y gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau, gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein yn [www.gov.uk/companies-house](http://www.gov.uk/companies-house) yn y DU neu cysylltwch â Thŷ'r Cwmnïau Gibraltar.

Bydd angen i chi edrych ar rif cofrestru'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Dim ond rhifau sy'n dechrau gydag OC, SO neu NC sy'n bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig a ganiateir.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn yr adran flaenorol 'Sut rydych yn cadarnhau a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y DU a/neu Gibraltar?' ar y dudalen flaenorol.

---

# 16

## Beth sydd angen i chi ei gofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- yr enw fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr
- cyfeiriad swyddfa gofrestredig y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig

# Cymdeithasau anghorfforedig

## Beth sy'n gwneud cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir?

Mae cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir:

- os yw'r brif swyddfa yn y DU a/neu Gibraltar
- os yw'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU a/neu Gibraltar

## Sut rydych yn cadarnhau bod cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir?

Nid oes unrhyw gofrestr o gymdeithasau anghorfforedig. Mae p'un a yw'n rhoddwr a ganiateir yn fater ffeithiol ym mhob achos.

Yn gyffredinol, mae gan gymdeithas anghorfforedig y canlynol yn aml:

- aelodaeth adnabyddadwy, a
- rheolau neu gyfansoddiad, a
- bodolaeth ar wahân i'w haelodau

Er enghraifft, gall clybiau aelodau fod yn gymdeithasau anghorfforedig weithiau.

Rhaid i chi gadarnhau bod y brif swyddfa yn y DU a/neu Gibraltar.

Os bydd cymdeithas anghorfforedig yn y DU yn rhoi rhoddion gwleidyddol gwerth mwy na £25,000 yn ystod blwyddyn galendr, dylech ei hysbysu bod yn rhaid iddi roi gwybod i ni am hyn.

Ewch i'n gwefan neu ffoniwch ni i gael rhagor o wybodaeth.

# 18

Os nad ydych yn siŵr a yw cymdeithas yn bodloni'r meini prawf, dylech ystyried a yw'r rhodd gan yr unigolion ynddi mewn gwirionedd (yn hytrach na'r gymdeithas) neu a oes rhywun yn y gymdeithas yn gweithredu fel asiant dros eraill.

Os credwch mai felly y mae, rhaid i chi gadarnhau bod pob un o'r unigolion a gyfrannodd fwy na £500 yn rhoddwyr a ganiateir a'u trin fel y rhoddwyr.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gynnal busnes yn yr adran flaenorol 'Sut rydych yn cadarnhau a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y DU a/neu Gibraltar?' ar dudalen 14.

Os hoffech gael mwy o ganllawiau ar roddwyr a ganiateir a chymdeithasau anghorfforedig, cysylltwch â ni.

## Beth sydd angen i chi ei gofnodi?

Bydd angen i chi gofnodi:

- enw'r gymdeithas anghorfforedig
- cyfeiriad prif swyddfa'r gymdeithas anghorfforedig

# Mathau eraill o roddwyr

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gallwch gadarnhau bod mathau eraill o roddwyr yn y DU yn rhoddwyr a ganiateir.

Math o roddwr	Gofyniad	Ble i edrych
Undeb llafur	Wedi'i restru'n undeb llafur gan y Swyddog Ardystio	Y Swyddog Ardystio <a href="http://www.certoffice.org">http://www.certoffice.org</a>
Cymdeithas adeiladu	Cymdeithas adeiladu o fewn ystyr Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986	Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol <a href="http://mutuals.fsa.gov.uk/">http://mutuals.fsa.gov.uk/</a>
Cymdeithas lesiant / ddiwydiannol neu ddarbodus	Wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Llesiant 1974 neu Ddeddf Cymdeithasau Darbodus a Diwydiannol 1965	Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol <a href="https://mutuals.fsa.gov.uk/">https://mutuals.fsa.gov.uk/</a>
Sefydliad corfforedig elusennol yn y DU	Wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Elusennau 2011	Y Comisiwn Elusennau <a href="http://www.charitycommission.gov.uk">www.charitycommission.gov.uk</a>
Corff sydd wedi ei gorffori gan Siarter Frenhinol	Deiseb i'r Sofran yn y Cyngor	Y Cyfrin Gyngor <a href="http://www.privycouncil.independent.gov.uk/royal-charters/chartered-bodies">www.privycouncil.independent.gov.uk/royal-charters/chartered-bodies</a>
Partneriaeth Albanaidd sy'n cynnal busnes yn y DU	Wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Partneriaeth 1890	Tŷ'r Cwmnïau <a href="http://www.gov.uk/companies-house">www.gov.uk/companies-house</a>

# 20

I gael gwybodaeth am gadarnhau a yw rhoddwyr eraill yn Gibraltar yn rhoddwyr a ganiateir, gweler ein canllawiau [Gibraltar a refferendwm yr UE](#).

## Pa gofnodion y mae angen i chi eu cadw?

### Rhoddion a dderbyniwyd gennych

Os derbyniwch rodd gwerth dros £500, rhaid cofnodi'r manylion canlynol:

- enw a chyfeiriad y rhoddwr
- os mai cwmni yw'r rhoddwr, rhif cofrestru'r cwmni
- swm neu natur a gwerth y rhodd
- y dyddiad y derbyniwyd y rhodd

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y dogfennau hyn:

- [Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm](#)
- [Trosolwg o fenthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm](#)
- [Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

## Benthyciadau a dderbyniwyd gennych

Os byddwch yn trefnu benthyciad dros £500, rhaid cofnodi'r manylion canlynol:

- natur y trafodyn - p'un a yw'n fenthyciad neu'n gyfleuster credyd
- enw llawn a chyfeiriad y benthyciwr
- os mai cwmni yw'r benthyciwr, rhif cofrestru'r cwmni
- gwerth y benthyciad
- y dyddiad y trefnwyd y benthyciad
- dyddiad ad-dalu'r benthyciad neu ddatganiad ei fod yn benagored neu, fel arall, sut y caiff y dyddiad ei bennu o dan y cytundeb
- os yw'r benthyciad wedi dod i ben, y dyddiad y daeth i ben
- y gyfradd llog - neu sut y caiff y gyfradd ei phennu o dan y cytundeb, neu ddatganiad nad oes unrhyw log yn daladwy
- p'un a yw'r cytundeb yn cynnwys darpariaeth sy'n golygu y gellir ychwanegu llog nas talwyd at y swm dyledus
- p'un a roddwyd unrhyw warant ar gyfer y benthyciad ai peidio

Rhaid i chi gofnodi cyfeiriad y rhoddwr fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr statudol berthnasol. Os mai etholwr tramor yw'r rhoddwr, rhaid i chi gofnodi ei gyfeiriad cartref, a hynny am na fydd unrhyw gyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholwyr.

Os mai cymdeithas anghorfforedig yw'r rhoddwr, dylech gofnodi cyfeiriad y brif swyddfa, a hynny am nad oes cofrestr o gymdeithasau anghorfforedig y gellir cyfeirio ati.

Dylech hefyd gofnodi'r manylion hyn ar gyfer unrhyw roddion a dderbynnir cyn i'r ymgyrchydd gofrestru.

Dylech gadw cofnod o'ch holl wiriadau i gadarnhau a yw rhoddwyr neu fenthycwyr yn rhai a ganiateir er mwyn dangos eich bod wedi dilyn y rheolau.

---

## Beth i'w wneud os byddwch yn cael rhodd nas caniateir?

Os cewch rodd gan ffynhonnell nas caniateir, rhaid cofnodi'r manylion canlynol:

- enw a chyfeiriad y rhoddwr
- swm y rhodd neu natur a gwerth y rhodd
- sut y rhoddwyd y rhodd
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y dyddiad y gwnaethoch ymdrin â'r rhodd (drwy ei dychwelyd, er enghraifft) a sut y gwnaethoch hynny

Dylech hefyd gofnodi'r manylion hyn ar gyfer unrhyw roddion nas caniateir a dderbyniwyd cyn i chi gofrestru â ni.

## Beth i'w wneud os byddwch yn cael benthyciad nas caniateir?

Os nad yw benthyciwr i ymgyrchydd cofrestredig yn un a ganiateir neu os bydd yn newid i fod yn fenthyciwr nas caniateir ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y benthyciad, mae'r trafodyn yn annilys. Nid oes ganddo unrhyw effaith gyfreithiol a rhaid i chi ad-dalu unrhyw swm sy'n ddyledus gennych i'r benthyciwr, ynghyd ag unrhyw log sy'n ddyledus. Felly, rhaid i chi barhau i wirio bod y benthyciwr yn fenthyciwr a ganiateir drwy gydol cyfnod y benthyciad.

Os ydych wedi trefnu benthyciad gan fenthyciwr nas caniateir, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted ag y byddwch yn darganfod bod y benthyciwr yn fenthyciwr nas caniateir.

I gael rhagor o wybodaeth am roddion nas caniateir, gweler:

- [Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm](#)





## Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 0333 103 1928  
[pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)
- Yr Alban: 0333 103 1928  
[infoscotland@electoralcommission.org.uk](mailto:infoscotland@electoralcommission.org.uk)
- Cymru: 0333 103 1929  
[gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928  
[infonorthernireland@electoralcommission.org.uk](mailto:infonorthernireland@electoralcommission.org.uk)

Ewch i [www.comisiwnethaliadol.org.uk](http://www.comisiwnethaliadol.org.uk)

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: [pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)

---